



Cynllunio Canllaw Prosiect Dwyieithog

Canllaw ar gyfer Deiliaid Grant

Pam creu Canllaw Prosiect Dwyieithog

Wrth ysgrifennu eich cais, bydd angen i chi ystyried y Gymraeg, gan nodi sut rydych yn bwriadu cynnal eich prosiect yn ddwyieithog. Yn ystod y broses o ystyried os yw eich cais yn llwyddiannus, mae'r panel yn ystyried sut ydych chi'n bwriadu rhedeg eich prosiect yn ddwyieithog, ac bydd hynny'n rhan o'u penderfyniad.

Er mwyn dangos i'r panel eich bod wedi ystyried y Gymraeg, rydym yn eich annog i greu Canllaw Prosiect Dwyieithog.

Gall Canllaw Prosiect Dwyieithog fod yn ddogfen ddefnyddiol i chi sy'n rheoli'r prosiect, ac ar gyfer defnyddwyr eich gwasanaeth i weld pa wasanaethau sydd ar gael gennych drwy gyfrwng y Gymraeg.

Os nad Cymraeg yw eich iaith gyntaf, gall fod yn anodd ystyried sut i gynnwys y Gymraeg yn eich prosiect arfaethedig. Drwy gydol y prosiect, byddwn ni'n eich cyfeirio at wahanol ffynonellau cymorth. Os ydych chi'n rhagweld y bydd angen cymorth ychwanegol arnoch y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael am ddim, er enghraifft cyfieithydd, cofiwch gynnwys hyn yn eich cyllideb.

Pethau i'w cynnwys mewn Canllaw Prosiect Dwyieithog:

Ymgynghoriad:

Mae'n bwysig i chi ystyried yr iaith Gymraeg a sut rydych yn bwriadu cynnal eich prosiect yn ddwyieithog cyn ysgrifennu eich cais, ac mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud.

Ystyriwch y cwestiynau isod:

- Faint o siaradwyr Cymraeg sydd yn eich cymuned?
- A oes grŵp ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn eich cymuned?
- A yw siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn gallu elwa o'ch prosiect, a sut fydden nhw'n gwneud hyn?

Beth fydd angen ei gynhyrchu'n ddwyieithog a sut?

Gohebiaeth:

- Danfonwch lythyrau yn ddwyieithog a defnyddiwch lofnod e-bost dwyieithog.
- Ymatebwch i lythyrau ac e-byst a dderbynnir yn Gymraeg, yn Gymraeg.
- Atebwch y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Anogwch eich staff i gyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg.
- Anogwch eich staff i wisgo bathodyn Iaith Gwaith, boed ydynt yn siaradwyr rhugl neu'n ddysgwyr. Mae modd i chi archebu bathodynnau a llinyn gwddf yn rhad ac am ddim o wefan y Comisiynydd [yma](#).
- Os oes derbynfa gennych, sicrhewch ei fod yn amlwg i'r cyhoedd bod gwasanaeth Cymraeg ar gael gyda phoster Iaith Gwaith.

Deunyddiau ysgrifenedig:

- Dylai pob dogfen sy'n ymwneud â'ch prosiect fod ar gael yn Gymraeg (poster, pamffledi, llyfrynau a gwefan).
- Os yw'r testun wedi'i rannu i ddwy golofn, gosodwch y Gymraeg ar ochr chwith y dudalen. Os nad oes colofnau, dylai'r Gymraeg ymddangos yn gyntaf.
- Ni ddylai bod gwahaniaeth rhwng y ddwy iaith o ran ffont, lliw a maint yr ysgrifen.

Digidol: Gwefan

- Os ydych chi'n bwriadu defnyddio canran o'ch grant at greu gwefan, rhaid i'r wefan honno fod yn ddwyieithog.
- Os oes gennych chi wefan yn barod, ac eisiau nodi eich prosiect sydd wedi cael ei ariannu ar eich gwefan, rhaid i'r adran sy'n ymwneud â'r prosiect fod yn ddwyieithog.
- Cofiwch ddefnyddio ein [logo dwyieithog](#).
- Ystyriwch gael botwm dewis iaith ar frig y dudalen we.

Cyfryngau Cymdeithasol

- Sicrhewch fod pob neges sy'n cael ei chyhoeddi ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog.
- Ceisiwch ateb unrhyw gwestiynau y gofynnir yn Gymraeg, yn Gymraeg.
- Bydd angen i unrhyw ffilmiau y byddwch yn eu cynhyrchu gyda'n harian gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog lle bo'n bosibl, neu fel ffilmiau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Ceisiwch feddwl am y Gymraeg ar ddechrau unrhyw ymgyrch farchnata. Un ymgyrch, dwy iaith.

Gweler canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar ddyluniad dwyieithog ar gyfer posteri, postiau cyfryngau cymdeithasol ayb yma: [Canllawiau \(welshlanguagecommissioner.wales\)](#). Gweler enghreifftiau ac arferion da isod.

Trefnu digwyddiad neu gyfarfod

Os ydych yn cynnal digwyddiadau neu gyfarfodydd cyhoeddus, rhaid i chi roi cyfle i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg pe dymunant. Pe dymunant ddefnyddio'r Gymraeg, rhaid i chi ddarparu cyfieithydd ar y pryd.

- Sicrhewch fod y ffurflenni archebu, cofrestru, adborth, cyhoeddiadau, baneri a thocynnau yn ddwyieithog.
- Sicrhewch fod unrhyw gyflwyniadau Pwynt Pŵer yn ddwyieithog.
- Anfonwch wahoddiadau dwyieithog. Wrth anfon gwahoddiad at unigolyn, rhaid i chi ofyn i'r unigolyn os hoffent ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffent ddefnyddio'r Gymraeg, dylech eu hysbysu y bydd cyfieithydd ar y pryd ar gael.
- Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar gael.
- Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, ac mae pawb a wahoddwyd wedi'ch hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, mae'n rhaid i chi drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg (os nad ydych chi'n cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).
- Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi nodi ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.
- Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfod, a rhaid i chi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg — (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.
- Ewch i www.cyfieithwyr.cymru/ i chwilio am gyfieithydd ar y pryd cymwys.

Hysbysebu swyddi gwag a'r broses recriwtio

- Os ydych yn bwriadu cyflogi aelod o staff neu ddod â gweithwyr sesiynol i mewn gyda'ch grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, bydd angen i chi ystyried yn ofalus p'un a oes angen siaradwr Cymraeg arnoch i gyflawni'r dyletswyddau dan sylw.
- Bydd angen i chi hysbysebu pob swydd newydd sydd gennych yn ddwyieithog, gan nodi hefyd os yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.
- Dylech roi'r opsiwn i'r ymgeisydd os hoffent gynnal eu cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Wedi i chi benodi'n llwyddiannus, dylai'r contract ac unrhyw ohebiaeth fod ar gael yn yr iaith a ddymunir gan yr unigolyn.

Dysgu a defnyddio'r Gymraeg

- Cynigiwch hyfforddiant Cymraeg i'ch staff.
- Talwch gyfran o'r gost os oes rhai o'ch swyddogion yn awyddus i fynychu gwersi i wella eu sgiliau Cymraeg neu ddysgu Cymraeg.
- Rhyddhewch staff i gael gwersi Cymraeg yn ystod oriau gwaith.
- Cofiwch annog eich staff i ddefnyddio Cysill ac adnoddau fel BydTermCymru a Geiriadur yr Academi i'w cynorthwyo gyda datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Darparu Cysill a Hyfforddiant

- Cynigiwch hyfforddiant dwyieithog yn eich gweithle.
- Sicrhewch fod unrhyw farchnata ar gyfer yr hyfforddiant yn ddwyieithog.

Cofnodi sgiliau iaith

- Mae cofnodi'r nifer o staff sydd â sgiliau Cymraeg ar daenlen yn arfer dda.
- Cofiwch ddiweddarau'r daenlen yn aml. Rydym yn awgrymu gwneud hyn unwaith y flwyddyn.

Rhannu gwybodaeth am eich gwasanaethau Cymraeg yn eich gweithlu

- Sicrhewch fod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael gennych.
- Rhannwch becyn wybodaeth am wasanaethau Cymraeg o fewn y gweithlu gyda phob aelod o staff ar ddechrau eu cyflogaeth.

Gweithio gyda chontractwyr a phartneriaid

- Sicrhewch eich bod yn rhannu unrhyw negeseuon neu wybodaeth yr hoffech chi i sefydliad arall rannu ar eich ran yn ddwyieithog.
- Darparwch wybodaeth i sefydliadau a chwsmeriaid am eich gwasanaethau Cymraeg.

Costau Cyfieithu:

Mae costau cyfieithu yn amrywio yn ddibynnol ar brofiad cyfieithydd, ond tueddir i gostau amrywio rhwng 5c – 9c y gair. Os nad ydych chi'n siŵr o unrhyw beth, mae croeso i chi gysylltu â'n Swyddogion Ariannu i drafod. Mae modd hefyd cysylltu â chyfieithydd a gofyn am ddyfynbris. Gellir gwneud hyn fel rhan o'ch gwaith ymchwil - [Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru](#).

Cynnig Cymraeg

Cydnabyddiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yw'r Cynnig Cymraeg a roddir i sefydliadau sydd â chynllun cryf. Dyma gyfle i drawsnewid eich ymgysylltiad gyda'r cyhoedd trwy d dangos pa mor falch ydych chi i gynnig gwasanaethau'n Gymraeg.

Ar ôl i chi roi polisi neu gynllun ar waith, gall y Comisiynydd weithio gyda chi i'w ddatblygu ymhellach a gweithio tuag at ennill cydnabyddiaeth swyddogol.

Gweler rhagor o wybodaeth ar [wefan](#) Comisiynydd y Gymraeg.

Enghreifftiau o Arferion Da Enghraifft o bosteri dwyieithog:



MEHEFIN 10 JUNE 11:00 - 19:00

Mwynhau'r Gymraeg

AM DDIM / FREE

Ffilifest

Gŵyl Gymraeg / Welsh Language and Cultural Festival

@ CAEAU OWAIN GLYNDWR FIELDS, CAERFFILI

Gwirfoddolwyr / Volunteers

Dewch i wirfoddoli gyda ni yng Ngŵyl Cymraeg Ffilifest eleni. Cyfle gwych i siarad Cymraeg a mwynhau gweithgareddau wrth hefyd ein helpu ni i gynnal yr ŵyl.

Join us at Ffilifest this year by volunteering. A great opportunity to use your Welsh, enjoy the activities and also help us in running the event.

CYSYLLTWCHE ER MWYN COFRESTRU | WIRFODDOLI
CONTACT TO REGISTER TO VOLUNTEER
BETHANJONES@MENTERCAERFFILICYMRU

Menter Iaith Sir Caerffili
MENTRAU IAITH



YNYS Y BARRI

BARRY ISLAND

GŴYL FACH Y FRO

20.5.23

DYDD SADWRN
20 MAI 2023
11 AM - 8 PM

SATURDAY
20 MAY 2023
11 AM - 8 PM

GWILYM

TARA BANDITO
N'FAMADY KOUYATÉ
HANA LILI LOS BLANCOS
DOM JAMES & LLOYD LEWIS
PARISA FOULADI DAGRAU TÂN
ANGHARAD RHIANNON
SIANI SIONC

PRIF LWYFAN | MAIN STAGE
GLANFA GWYNFOR (YSGOLION | SCHOOLS)

STONDINAU | STALLS • GWEITHDAI | WORKSHOPS
PERFFORMIADAU | PERFORMANCES • CHWARAEON | SPORTS
BAR • BWYD | FOOD

Welsh Government
CRONFA GYMRUEDDOL COMMUNITY FUND
Cymdeithas Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Menter Iaith Sir Caerffili

Enghraifft o bost dwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol:

Yr Orsaf 20 h · 🌐

Cofiwch am hwn fory. Croeso cynnes i unrhyw un ddod draw am sgwrs gyfrinachol a chyngor.

Remember about this drop in session tomorrow. A warm welcome to anyone who would like a confidential chat and advice. ❤️



1 share

👍 Like 💬 Comment ➦ Share

Tafwyl - Dilyn 1 Mawrth 2022 · 🌐

#TAFWYL22 🎵

CASTELL CAERDYDD // CARDIFF CASTLE
18 + 19 MEHEFIN // JUNE 2022
www.tafwyl.cymru
Cardiff Castle / Castell Caerdydd

Mwy o wybodaeth i ddod yn fuan! // More info coming soon!

Celf // Artwork - Efa Lois
Dylunio // Design - Ctrl Alt Design



Mudiad Meithrin 23 Aug · 🌐

Mae gwefan Magu Plant. Rhowch amser iddo yn rhoi tips ymarferol a chyngor arbenigol ar fagu plant o bob oedran, i'ch cefnogi a'ch helpu i ddeall eu hymddygiad.

I ddysgu mwy ewch i: <https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo>

#MaguPlantCymru #MaguPlantRhowchAmserIddo

//

Parenting. Give it time's website provides practical parenting tips and expert advice for all ages to support you and help you understand their behaviour.

Learn more: <https://gov.wales/parenting-give-it-time>

#ParentingWales #ParentingGiveItTime

Magu Plant Rhowch amser iddo. Parenting Give it time



Enghraifft o wefan ddwyieithog gyda'n brandio:

Ewch i wefan [Hands Up For Down's](#)
Gweler yma dempledi rhad ac am ddim o'n [brandio dwyieithog](#).

Enghraifft o enw dwyieithog – Beth am roi 'Cymru' fel rhan o'ch enw cyrif?

The image shows three social media profiles side-by-side. On the left is Stonewall Cymru, featuring a woman's face and Welsh text: 'GOFALU GWELD GWRANDO', 'SAFE SEEN HEARD', and '#HearQueerYouth'. The middle profile is The National Lottery Community Fund Cymru, with a pink flag logo and text in Welsh and English: 'Yn dyfarnu grantiau @TNLUK i gefnogi pobl a chymunedau i ffynnu. Awarding @TNLUK funding to support people and communities to thrive.' The right profile is Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, with a colorful logo and text: 'Our page is here for members to engage with us. Mae ein tudalen yma er mwyn i'n haelodau ymgysylltu.'

I gael rhagor o enghreifftiau, awgrymiadau dylunio a gwybodaeth am arferion da, ymunwch â'n sesiynau dwyieithrwydd ar waith a gynhelir gennym mewn partneriaeth â Thîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg. I gael rhagor o wybodaeth a dyddiadau, cysylltwch ag Awel Jones, ein Swyddog Iaith Gymraeg mewnol ar Awel.Jones@cronfagymunedolylg.org.uk.

I gael rhagor o gyngor ar reoli eich prosiect yn ddwyieithog, neu am gyngor cyffredinol am yr iaith Gymraeg yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, cysylltwch â Cymorthcymraeg@cronfagymunedolylg.org.uk

Dolenni defnyddiol

Gwasanaethau cyfieithu:

- [Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru](#)
- [Helo Blod](#) (gwasanaeth cyfieithu am ddim gan Lywodraeth Cymru – hyd at 500 o eiriau y mis)

Canllawiau Comisiynydd y Gymraeg:

- [Canllawiau](#)
- Gwasanaeth prawfddarllen am ddim – e-bost: post@cyg-wlc.wales

Llinynnau gwddf, bathodynau, posterï gyda logo Gymraeg

- [Iaith Gwaith](#)

Learn Welsh:

- [Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol](#)
- [Cyrsiau Iaith Gymraeg](#)
- [Duolingo](#)
- [Dweud Rhywbeth yn Gymraeg](#)

Spell check, checking terms and dictionaries:

- [Term Cymru](#)
- [Cymorth Cymraeg: Porth Termiau \(bangor.ac.uk\)](#)
- [Cysill Ar-lein](#)
- [Geiriadur yr Academi](#)

Recruiting Welsh speakers:

- [Gwirfoddoli Cymru](#)
- [Lleol.Cymru](#)
- [Swyddle](#)
- [Swyddi360](#)